**Atodiad 3**

**CYNGOR CAERDYDD**

**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

# Templed Asesu Corfforaethol

| | |
|---|---|
| **Polisi/Strategaeth/Project/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth:** Strategaeth Iaith Gymraeg 5 mlynedd Caerdydd Ddwyieithog Cyngor Dinas Caerdydd 2017-2022 | |
| **Newydd/Presennol/Diweddaru/Addasu:** | |

| | |
|---|---|
| **Pwy sy'n gyfrifol am lunio a gweithredu'r Polisi/Strategaeth/Project/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth?** | |
| Enw: Ffion Gruffudd | Teitl y Swydd: Pennaeth Caerdydd Ddwyieithog |
| Tîm Gwasanaeth: Caerdydd Ddwyieithog | Gwasanaeth: Llywodraethiant a Gwasanaethau Cyfreithiol |
| Dyddiad Asesu: 16-02-2017 | |

**1. Beth yw amcanion y Polisi/Strategaeth/Project/Gweithdrefn/ Gwasanaeth/Swyddogaeth?**

Mae Strategaeth Iaith Gymraeg 5 mlynedd Caerdydd Ddwyieithog Cyngor Dinas Caerdydd yn un o ofynion statudol Safonau'r Gymraeg (rhif 1) a gyflwynwyd i Gyngor Dinas Caerdydd dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae hon yn strategaeth ar gyfer y ddinas gyfan sy'n nodi blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer hyrwyddo a datblygu'r iaith Gymraeg yng Nghaerdydd.

Gweledigaeth y strategaeth hon yw datblygu Caerdydd gwbl ddwyieithog. Caerdydd lle gall ein dinasyddion fyw, gweithio a chwarae yn ogystal â manteisio ar wasanaethau a chymorth yn Gymraeg neu Saesneg yn yr un modd. Prifddinas lle mae dwyieithrwydd yn cael ei hyrwyddo fel rhywbeth cwbl naturiol, a lle mae'r iaith Gymraeg yn cael ei diogelu a'i meithrin i genedlaethau'r dyfodol ei mwynhau a'i defnyddio.

**2. Rhowch wybodaeth gefndirol am y Polisi/Strategaeth/Gweithdrefn/ Gwasanaeth/Swyddogaeth ac unrhyw waith ymchwil sydd wedi'i wneud [e.e. data defnyddwyr gwasanaeth yn erbyn ystadegau demograffig, AEGau tebyg wedi'u gwneud ayyb.]**

Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar sefydliadau penodol i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg trwy is-ddeddfwriaeth (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg [Rhif 1] 2015). Rhestrir y safonau a gyflwynwyd i Gyngor Dinas Caerdydd yn 'Hysbysiad Cydymffurfio Cyngor Dinas Caerdydd - Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011'.

**CYNGOR CAERDYDD**

**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

## Templed Asesu Corfforaethol

Mae Safon 145 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 yn mynnu bod y Cyngor yn cynhyrchu a chyhoeddi strategaeth 5 mlynedd erbyn 30 Medi 2016 sy'n nodi sut y byddwn yn hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'r strategaeth yn cynnwys targed i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd yn ogystal â chamau penodol i hwyluso'r defnydd o'r iaith yn unol â Strategaeth y Gymraeg 2012 - 17 Llywodraeth Cymru a strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru: *miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050* (a gyhoeddwyd er mwyn ymgynghori arno yn Awst 2016).

Cyhoeddwyd strategaeth ddrafft Caerdydd Ddwyieithog ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ar 30 Medi yn unol â'r gofynion ac ers hynny mae cynllun gweithredu manwl ar gyfer y strategaeth wedi'i ddatblygu gyda'n partneriaid er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd.

Mae Safon y Gymraeg 145 yn datgan:

**Rhaid i chi lunio, a chyhoeddi ar eich gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn eich ardal; a rhaid i'r strategaeth gynnwys (ymysg pethau eraill) - (a) targed (yn nhermau canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd dan sylw, a (b) datganiad sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw; a rhaid i chi adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni ar eich gwefan o fewn 5 mlynedd i ddyddiad cyhoeddi'r strategaeth (neu ddyddiad cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni).**

Mae'r strategaeth yn cynnwys targed i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd dros gyfnod o bum mlynedd yn unol â gweledigaeth Llywodraeth Cymru am filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Er mwyn i Gaerdydd chwarae ei rhan yn cyflawni'r weledigaeth hon, rydym wedi gosod targed i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd gan 15.9% i 42,584 erbyn Cyfrifiad 2021. Cyflawnir hyn yn bennaf drwy'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-2020.

O'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad cyhoeddus (223 ymateb) roedd **70.3%** yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno â'r weledigaeth o Gaerdydd wirioneddol ddwyieithog. Roedd **53.2%** yn cytuno â'n targed i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd.

Bydd Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog yn cyfrannu at y saith amcan lles cenedlaethol yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn arbennig 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu fel iaith fyw.'

**CYNGOR CAERDYDD**

**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

# Templed Asesu Corfforaethol

Mae'r meysydd strategol a'r weledigaeth ganlynol wedi'u cynnwys yn y strategaeth

**Maes Strategol 1: Teuluoedd, Plant a Phobl Ifanc**
*Mae teuluoedd, plant a phobl ifanc yn cael digon o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg bob dydd.*

**Maes Strategol 2: Cymuned a Seilwaith**
*Dinas hollol ddwyieithog lle mae'r iaith Gymraeg yn rhan annatod o weithgareddau cymdeithasol a dinesig.*

**Maes Strategol 3: Gwasanaethau Cymraeg a′r Gweithle**
*Mae gwasanaethau o safon ar gael yn Gymraeg a Saesneg yn yr un modd.*

## 3 Asesu Effaith ar y Nodweddion a Ddiogelir

### 3.1 Oedran

A fydd y Polisi/Strategaeth/Project/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth dan sylw yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar bobl iau/hŷn?

| | Bydd | Na fydd | Dd/B |
|---|---|---|---|
| Hyd at 18 mlwydd oed | X | | |
| 18 – 65 mlwydd oed | X | | |
| Dros 65 mlwydd oed | X | | |

| **Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes ar gael.** |
|---|
| Mae un o'r meysydd strategol yn y strategaeth yn ymwneud â Theuluoedd, Plant a Phobl Ifanc yn ogystal â Chymunedau a Seilwaith. Mae'r cynllun gweithredu sy'n dod gyda'r strategaeth hon yn amlinellu'r camau penodol sy'n ymwneud â phlant, pobl ifanc a'r gymuned ehangach. Bydd strategaeth Caerdydd Ddwyieithog yn cael effaith arbennig o gadarnhaol ar bobl o bob oedran drwy gynyddu cyfleoedd i fyfyrwyr oedran ysgol ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg yn ogystal â chyfleoedd i'r gymuned ehangach ymwneud â'r iaith Gymraeg. |
| **Pa gam(au) allwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?** |
| Dd/B |

**CYNGOR CAERDYDD**

**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

## Templed Asesu Corfforaethol

| |
|---|
| |

### 3.2 Anabledd

A fydd y Polisi/Strategaeth/Project/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth dan sylw yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar bobl anabl?

| | Bydd | Na fydd | Dd/B |
|---|---|---|---|
| Nam ar y Clyw | | **X** | |
| Nam Corfforol | | **X** | |
| Nam ar y Golwg | | **X** | |
| Anabledd Dysgu | | **X** | |
| Salwch neu Gyflwr Iechyd hirdymor | | **X** | |
| Iechyd Meddwl | | **X** | |
| Camddefnyddio Sylweddau | | **X** | |
| Arall | | **X** | |

| **Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes ar gael.** |
|---|
| **Dim effaith wahaniaethol wedi'i nodi.** |
| **Pa gam(au) allwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?** |
| **Dim effaith wahaniaethol wedi'i nodi.** |

### 3.3 Ailbennu Rhywedd

A fydd y Polisi/Strategaeth/Project/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth yma yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar bobl drawsryweddol?

| | Bydd | Na fydd | Dd/B |
|---|---|---|---|
| **Pobl Drawsryweddol**<br>(Pobl sy'n bwriadu mynd trwy, yn mynd trwy neu sydd wedi mynd trwy broses [neu ran o broses] i ailbennu eu rhyw trwy newid nodweddion ffisiolegol neu nodweddion eraill rhyw) | | X | |

| **Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes ar gael.** |
|---|

**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

**Templed Asesu Corfforaethol**

| |
|---|
| **Dim effaith wahaniaethol wedi'i nodi.** |
| **Pa gam(au) allwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?** |
| **Dim effaith wahaniaethol wedi'i nodi.** |

### 3.4. Priodas a Phartneriaeth Sifil

A fydd y Polisi/Strategaeth/Project/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth yma yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar briodas a phartneriaeth sifil?

| | Bydd | Na fydd | Dd/B |
|---|---|---|---|
| Priodas | | X | |
| Partneriaeth Sifil | | X | |

| **Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes ar gael.** |
|---|
| **Dim effaith wahaniaethol wedi'i nodi.** |
| **Pa gam(au) allwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?** |
| **Dim effaith wahaniaethol wedi'i nodi.** |

### 3.5 Beichiogrwydd a Mamolaeth

A fydd y Polisi/Strategaeth/Project/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth yma yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar feichiogrwydd a mamolaeth?

| | Bydd | Na fydd | Dd/B |
|---|---|---|---|
| Beichiogrwydd | | X | |
| Mamolaeth | | X | |

| **Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes ar gael.** |
|---|
| |

**CYNGOR CAERDYDD**

**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

## Templed Asesu Corfforaethol

| **Dim effaith wahaniaethol wedi'i nodi.** |
|---|
| **Pa gam(au) allwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?** |
| **Dim effaith wahaniaethol wedi'i nodi.** |

### 3.6 Hil

A fydd y Polisi/Strategaeth/Project/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth dan sylw yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar y grwpiau canlynol?

| | **Bydd** | **Na fydd** | **Dd/B** |
|---|---|---|---|
| Gwyn | | X | |
| Grwpiau Cymysg / Aml-ethnig | | X | |
| Asiaidd / Asiaidd Prydeinig | | X | |
| Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig | | X | |
| Grwpiau Ethnig Eraill | | X | |

| **Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes ar gael.** |
|---|
| Dim effaith wahaniaethol wedi'i nodi.<br><br>Mae'r strategaeth yn cynnwys 2 flaenoriaeth sydd â'r nod o hyrwyddo'r iaith Gymraeg mewn cymunedau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg.<br><br>• Normaleiddio dwyieithrwydd – amgylcheddau lle gall y ddwy iaith gael eu defnyddio'n rhydd a'u dathlu gan bobl o bob diwylliant a chefndir gan hyrwyddo perchnogaeth o'r iaith a chydlyniad cymunedol.<br>• Cyflwyno'r iaith Gymraeg i gymunedau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg fel modd o ddod â diwylliannau Cymru ynghyd a hyrwyddo dysgu Cymraeg ac addysg Gymraeg. |
| **Pa gam(au) allwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?** |
| |

### 3.7 Crefydd, Cred neu Ddiffyg Cred

A fydd y Polisi/Gwasanaeth/Swyddogaeth hwn yn **cael effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar bobl o grefyddau, credoau neu ddiffyg cred gwahanol?

| | **Bydd** | **Na** | **Dd/B** |
|---|---|---|---|

**CYNGOR CAERDYDD**

**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

# Templed Asesu Corfforaethol

| | | fydd | |
|---|---|---|---|
| Bwdhyddion | | X | |
| Cristnogion | | X | |
| Hindwiaid | | X | |
| Dyneiddwyr | | X | |
| Iddewon | | X | |
| Mwslimiaid | | X | |
| Siciaid | | X | |
| Arall | | X | |

| **Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes ar gael.** |
|---|
| **Dim effaith wahaniaethol wedi'i nodi.** |
| **Pa gam(au) allwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol? Dd/B** |
| |

### 3.8 Rhyw

A fydd y Polisi/Strategaeth/Project/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth yma yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar ddynion a/neu ferched?

| | Bydd | Na fydd | Dd/B |
|---|---|---|---|
| Dynion | | X | |
| Merched | | X | |

| **Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes ar gael.** |
|---|
| **Dim effaith wahaniaethol wedi'i nodi.** |
| **Pa gam(au) allwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?** |
| **Dim effaith wahaniaethol wedi'i nodi.** |

### 3.9 Cyfeiriadedd Rhywiol

A fydd y Polisi/Strategaeth/Project/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth dan sylw yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar y grwpiau canlynol?

**CYNGOR CAERDYDD**

**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

## Templed Asesu Corfforaethol

| | **Bydd** | **Na fydd** | **Dd/B** |
|---|---|---|---|
| Deurywiol | | X | |
| Dynion Hoyw | | X | |
| Merched Hoyw/Lesbiaid | | X | |
| Heterorywiol/Syth | | X | |

| **Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes ar gael.** |
|---|
| **Dim effaith wahaniaethol wedi'i nodi.** |
| **Pa gam(au) allwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?** |
| **Dim effaith wahaniaethol wedi'i nodi.** |

### 3.10 Y Gymraeg

A fydd y Polisi/Strategaeth/Project/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth dan sylw yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar y Gymraeg?

| | **Byd d** | **Na fydd** | **Dd/ B** |
|---|---|---|---|
| Y Gymraeg | X | | |

| **Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes ar gael.** |
|---|
| Mae hon yn strategaeth ar gyfer y ddinas gyfan sydd â'r nod o hyrwyddo a hwyluso'r iaith Gymraeg ledled Caerdydd. Bydd yn cael ei darparu gan Gyngor Dinas Caerdydd a phartneriaid allanol eraill i gynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio ac ymwneud â'r iaith Gymraeg. Bydd y strategaeth hon yn cael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg yng Nghaerdydd. |
| **Pa gam(au) allwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?** |
| |

### 4. Ymgynghori a Chysylltu

Pa drefniadau sydd wedi eu gwneud i ymgynghori/cysylltu â'r amryw Grwpiau Cydraddoldeb?

**CYNGOR CAERDYDD**

**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

# Templed Asesu Corfforaethol

Cyhoeddwyd Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog ar 30 Medi am 6 wythnos.

Cyn y cyhoeddiad drafft, ymgynghorwyd yn fewnol, gan gynnwys gyda Chydlynwyr y Gymraeg a'r Grŵp Hyrwyddo, rhwydweithiau cydraddoldeb mewnol, Gweithgor Aelodau Caerdydd Ddwyieithog a'r Pwyllgor Adolygu Polisi a Pherfformiad. Cynhaliwyd arolwg staff hefyd. Ymgynghorwyd â dros 26 o bartneriaid allanol gan gynnwys Prifysgol Caerdydd, Menter Caerdydd, Mudiad Meithrin, Comisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru.

## 5. Crynodeb y Camau Gweithredu [Rhestrir yn yr Adrannau uchod]

| **Grwpiau** | **Gweithredoedd** |
|---|---|
| Oedran | |
| Anabledd | |
| Ailbennu Rhywedd | |
| Priodas a Phartneriaeth Sifil | |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | |
| Hil | |
| Crefydd/Cred | |
| Rhyw | |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | |
| Y Gymraeg | |
| Cyffredinol [perthnasol i'r holl grwpiau uchod] | Bydd y Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 5 mlynedd yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad yr iaith Gymraeg. |

## 6. Camau Gweithredu Pellach

Dylech gynnwys unrhyw argymhellion ar gyfer camu gweithredu yr ydych yn bwriadu eu cymryd o ganlyniad i'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (a restrir yn y Crynodeb o Gamau Gweithredu) fel rhan o Gynllun Busnes eich gwasanaeth i'w fonitro'n rheolaidd.

## 7. Awdurdodi

Dylai Prif Swyddog y Polisi/Strategaeth/Project/Swyddogaeth gwblhau'r Templed a dylai Rheolwr pob Gwasanaeth ei gymeradwyo.

| | |
|---|---|
| Cwblhawyd gan: Dylan Hughes | Dyddiad: |
| Swydd: Caerdydd Ddwyieithog | 16-02-2017 |
| Cymeradwywyd gan: Ffion Gruffudd | 16-02-2017 |

**CYNGOR CAERDYDD**

**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

## Templed Asesu Corfforaethol

| | |
|---|---|
| Swydd: Caerdydd Ddwyieithog | 16-02-2017 |
| Gwasanaeth: Llywodraethiant a Gwasanaethau Cyfreithiol | 16-02-2017 |

7.1 Ar ôl i'r Asesiad hwn gael ei gwblhau, sicrhewch fod y Ffurflen yn cael ei phostio ar Dudalen eich Cyfarwyddiaeth ar CIS - *Cyngor Cyfan/Systemau Rheoli/Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb* - fel bod cofnod ar gael o bob asesiad a wnaed gan y Cyngor.

Am ragor o wybodaeth neu gymorth, cysylltwch â'r Tîm Canolbwyntio ar Ddinasyddion ar 029 2087 3059 neu e-bostiwch canolbwyntioarddinasyddion@caerdydd.gov.uk